**Y Pwyllgor Busnes**

**Cofnodion BC(3)07-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 4 Mawrth 2008

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)06-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 26 Chwefror 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)07-08(p1)**

3.1 Dywedodd y cadeirydd ei fod wedi cael ei hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.50, mai'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a fyddai'n ateb cwestiynau'r Prif Weinidog yn ei absenoldeb ar y dydd Mawrth.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, a oedd i'w draddodi ar y dydd Mercher, wedi'i ohirio. Dywedodd y byddai datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am faterion iechyd yn ymwneud â GIG Gogledd Cymru yn cymryd ei le.

3.3 Cytunodd y pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.4 Nodwyd y trefn busnes ar gyfer 4 a 5 Mawrth 2008 gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-08(p2)**

3.5 Nodwyd amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-08(p3)**

3.6 Cytunodd y pwyllgor y byddai dadl ar geisio caniatâd gan y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod ar gyfer ailgylchu gan Nerys Evans i'w gynnal ddydd Mercher 9 Ebrill 2008.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Papur ar y dyddiadau toriad arfaethedig ar gyfer 2008-09 - BC(3)07-08(p4)**

3.9 Cytunodd y pwyllgor ar y dyddiadau toriad arfaethedig ar gyfer 2008-09.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008 mewn perthynas â thai fforddiadwy - BC(3)07-08(p5)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod cais gan gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno adroddiad y pwyllgor. Dywedodd y cadeirydd mai'r rheswm dros ymestyn y cyfnod am un wythnos ychwanegol tan 18 Ebrill 2008 oedd er mwyn caniatáu digon o amser i'r Pwyllgor Deddfau gael ystyried materion sydd heb eu datrys. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cynnig. Dywedodd y cadeirydd y câi'r amserlen ddiwygiedig ei gosod gerbron y Cynulliad.

**5. Unrhyw fater arall**

**Amserlen pwyllgorau**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod y cynigion ar gyfer yr amserlen pwyllgorau. Dywedodd y cadeirydd bod dau ddewis yn y papur gwreiddiol y bu'r pwyllgor yn ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2008 a bod e-bost yn rhoi amlinelliad o'r dewisiadau pellach wedi'i anfon at y rheolwyr busnes y tu allan i'r pwyllgor. Cafwyd ychydig drafodaeth ar y gwahanol ddewisiadau. Ni chafwyd consensws. Serch hynny, cytunwyd y byddai pwyllgorau yn cyfarfod ar fore dydd Mawrth, bore dydd Mercher, yn gynnar bore dydd Iau ac yn hwyrach ar fore dydd Iau. Cytunodd y pwyllgor hefyd y byddai'r pwyllgorau sy'n cyfarfod yn hwyrach ar fore dydd Iau yn cael eu cylchdroi yn ystod y toriad hanner tymor.

**Y Pwyllgor Darlledu**

5.2 Dywedodd y cadeirydd bod cynnig wedi dod i law'r Pwyllgor Busnes i sefydlu pwyllgor ad hoc i drafod materion yn ymwneud â darlledu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cynnig. Dywedodd y cadeirydd y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher 5 Mawrth 2008 er mwyn gallu dwyn cynigion gerbron i sefydlu ac ethol y pwyllgor.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**